

Sŵn y glicied yn cau

*“A yw Duw wedi anghofio trugarhau?
A yw yn ei lid wedi cloi ei dosturi?” (adn. 9)*

Beth am ddarllen Salm 77:1–20 ac yna myfyrio

Mae ffydd hefyd yn cael cyfle i dyfu wrth inni gael ein galw i fynd trwy sefyllfaoedd sydd yn anodd neu yn ansicr. Gall unrhyw un feddu ffydd pan fo'r haul yn tywynnu yn yr awyr a dim sôn am gwmwl yn unman. Ond beth sydd yn digwydd pan fo'r stormydd yn dod ac mae'r gwyntoedd yn chwythu, gwyntoedd rhagluniaethau croes. Yr hyn na ddylem ei wneud yw ein twyllo ein hunain nad ydynt yn cael unrhyw effaith. Os nad ydynt yn cael effaith, mae hynny'n iawn, ond os oes effaith rhaid cydnabod hynny. Nid yw Duw yn syrthio oddi ar ei orsedd oherwydd bod ein ffydd ni wedi ei hysgwyd. Nid ydym i gyd fel Abraham oedd yn peidio ag amau o gwbl ar sail addewid Duw (Rhufeiniaid 4:20), a hynny pan ddywedwyd wrtho gan Dduw fod Sara am gael plentyn a hithau bellach yn 90 oed.

Pan fu farw gwraig C. S. Lewis, Joy, o ganer, dyma'r hyn a ysgrifennodd am y niwl ysbrydol a'i gorchuddiodd: “Dos at Dduw pan wyt mewn cyfyngder garw. Pan fo pob cymorth arall yn wagedd, beth a weli, ai pob drws wedi ei gau yn dy wyneb a sŵn y glicied yn cau ac yn cloi ar y tu mewn? Ar ôl hynny, tawelwch. Cystal iti â throi i ffwrdd.” Fe nododd un fod geiriau Lewis ar y pryd yn heresi. Na, nid heresi oedd y tu ôl i'r geiriau ond realaeth a phrofiad. Ni throdd Lewis i ffwrdd. Yn wir, fe ddaeth trwy'r profiad trwy gymorth Duw, ac fe ddaeth darllenwyr Lewis i glywed tinc newydd yn ei ysgrifennu. Cawn y stori sut y bu iddo ddarganfod Duw ynghanol ei boen, ac fe ddaeth yr hanes yma yn esiampl glasurol o'r modd y mae ffydd, nid yn unig yn gallu goddiweddyd, ond hyd yn oed yn gallu ffynnu mewn anhawster.

Oes na gymylau duon yn dy fywyd di ar y foment? Cymer afael. Wedi i ti ddod trwy'r adeg yma o anawsterau, fe wnei di ddarganfod fod mwy o gyhyrau yn dy ffydd nag a fuaset ti erioed wedi ei ddychmygu'n bosibl.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Bren. 19:1–19; Job 1:13 – 2:10; 42:1–10

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut ddaeth Eleias trwy ei gyfyngder?
2. Beth oedd profiad Job?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi ar adegau anodd i fod, nid yn unig yn ddigon agored i gydnabod yr hyn yr wyf yn ei deimlo, ond i gydnabod hefyd dy fod ti yno er bod fy nheimpladau yn gwrthod credu hynny. Cynorthwya fi yn enw Iesu. Amen.